

Adders are Amazing! Gwiberod Gwych!

24. LLIFYNNAU NATURIOL

CYFLWYNIAD

Yn ystod ein gwaith Gwiberod Gwych!, buom yn gweithio gyda grŵp gwnïo Tyddewi, *The Stitchy Witches*, a grwpiau Sefydliad y Merched, i greu cwilt 'gwiberod' hudolus. Buom yn gweithio gyda'r artist ffabrig Sian Lester, gan dreulio deuddydd yn creu ffabrigau wedi eu lliwio â llifynnau naturiol o blanhigion a geir yng nghyfeir y wiber. Ar gyfer y broses hon, aethom allan fel grŵp i gasglu'r planhigion o ymylon heolydd a llwyni, ac yna dychwelyd ar gyfer sesiwn gweithdy dan do i dynnu'r llifynnau o'r planhigion a pharatoi a lliwio'r darnau ffabrig. Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio'n arbennig o dda i dynnu pobl ynghyd; i'w helpu i feddwl am yr amgylchedd naturiol lle mae'r gwiberod yn byw; a chreu rhywbeth hardd i ddathlu a lledaenu neges bositif am y wiber.

Mae'r daflen gweithgaredd hon yn gyflwyniad sylfaenol i un o'r technegau a ddefnyddiwyd gennym ni gyda dail y fedwen. Mae llawer mwy o wybodaeth am llifynnau naturiol ar gael ar-lein. Am ragor o wybodaeth am blanhigion eraill a ddefnyddiwyd gennym yn y gweithdy, rhowch glic ar wefan ARG UK www.arguk.org (gweler 'Defnyddiau ac Adnoddau').

BYDD ARNOCH

- Darnau o ffabrig naturiol i'w lliwio (defnyddiom ni frethyn ac edafedd gan fod y rhain yn cymryd llifynnau naturiol yn dda iawn. Gall cotwm weithio'n dda hefyd)
- Dail y fedwen (200g am bob 100g o ffabrig yr ydych am ei liwio)
- Sosban ddur gwrthstaen fawr
- Cwcer (defnyddiom ni blatiau poeth a llosgwr nwy cludadwy)
- Llwy bren / gefeiliau
- Llinyn, pegiau, marblys, nodwyddau gwnïo ac edafedd (ar gyfer y dull 'shubori' os ydych yn ei ddefnyddio)
- Dŵr

GWNEWCH!

1 Mae angen mordantio ffabrigau ymlaen llaw cyn eu lliwio gyda dail y fedwen, er mwyn i'r llifyn gymryd. Rhowch glic ar www.wildcolours.co.uk i ddarganfod sut i wneud hyn.

2 Rhowch ddail y fedwen mewn pot lliwio (sosban) gyda dŵr oer i'w gorchuddio. Yn raddol, cynheswch y tymheredd nes bod y dŵr yn berwi. Mudferwch am 30 munud. Gadewch i oeri, dros nos fyddai orau.



GWNEWCH!

3

Mae techneg *shubori* yn defnyddio gwrthrychau a phwythau er mwyn 'gwrthsefyll' y llifyn a chreu patrymau yn y ffabrig. Defnyddiom ni farbllys wedi eu lapio yn y ffabrig, gyda bandiau lastig i'w cadw yn eu lle, pegiau pren a phatrymau wedi eu gwnïo.



4

Straeniwch hylif y llinyn (tynnwch y dail yn gyntaf) ac ychwanegwch ddarnau ffabrig at y potyn. Codwch y tymheredd yn raddol nes ei fod yn berwi, dros gyfnod o 45 munud. Mudferwch am 45 munud arall i ddatblygu lliw dyfnach. Bob nawr ac yn y man, throwch y ffabrig yn ofalus gyda llwy bren - peidiwch â throï a throï. Gadewch y ffabrig i oeri yn y potyn cyn ei dynnu allan.



5

Dadlapiwch y darnau ffabrig er mwyn datgelu'r patrymau *shubori*! Rinsiwch a golchi gydag ychydig o sebon, ac vna rinsio eto.



6

Dylech hongian y ffabrig i fyny i sychu, ac yna'i smwddio a'i ddefnyddio mewn prosiect creadigol.

